COMISIWN *FFEINDIO'R MAENDY* - BRÎFF YR ARTIST

Prosiect Syniadau:Pobl:Lleoedd, Llyfrgell Maendy, Casnewydd

Cyllideb: £13,000, gan gynnwys TAW

Hyd y Prosiect: Awst – Tachwedd 2018

Y dyddiad cau ar gyfer Ceisiadau: Canol Nos 25 Gorffennaf 2018

Trefnwyd y cyfweliadau at: 07 Awst 2018

Mae Maindee Unlimited yn gwahodd ceisiadau gan Artistiaid Sain i gynhyrchu mewnosodyn celf newydd i adeilad Llyfrgell Maendy sydd newydd ei ailwampio, man cymuned a redir gan wirfoddolwyr ym Maendy ar ochr ddwyreiniol canol dinas Casnewydd. Lleolir a gwneir y gwaith comisiwn mewn ymateb i agweddau ar ecoleg gymdeithasol a diwylliannol Maendy a bydd yn rhan o'r rhaglen ehangach *Ffeindio'r Maendy: Mappa Maendy.* Daw'r comisiwn i ben mewn digwyddiad lansio yn Llyfrgell Maendy ym mis Tachwedd 2018. Bydd hyn yn nodi diwedd prosiect *Syniadau: Pobl: Lleoedd* ym Maendy ond bydd hefyd yn arwydd dechrau rhaglen o ddigwyddiadau a gweithgareddau celfyddydol a diwylliannol y mae Maindee Unlimited yn bwriadu dal i'w llywyddu yn y llyfrgell sydd newydd ei hailwampio, o'r enw *Llyfrgell Maendy* +.

Rhan o *Ffeindio'r Maendy* yw'r comisiwn hwn - prosiect tair blynedd a gefnogir gan raglen strategol Cyngor Celfyddydau Cymru *Syniadau: Pobl: Lleoedd*, a chanddi'n amcan rhoi ar brawf fodelau newydd adfywio a chydweithredu drwy'r celfyddydau. Cyllidir y prosiect yn rhannol gan Sefydliad Esmee Fairbairn, Ymddiriedolaeth Elusennol Garfield Weston, y Cynllun Credyd Treth Tirlenwi drwy Gyngor Dinas Casnewydd ac eraill.

Mae rhagor o wybodaeth ynghylch *Ffeindio'r Maendy: Mappa Maendy* ar gael yma.

Cyd-guradir y comisiwn gan Jo Sutton (Maindee Unlimited) a Sarah Pace (Addo).

1. Cyd-destun

Ardal fawr fasnachol a phreswyl ganol dinas yw Maendy, ar ochr ddwyreiniol ganol Casnewydd yn ne Cymru. Mae'r llyfrgell ar ben gorllewinol Heol Cas-gwent: yn llawn becwsys, bwcis, bwtsiwrs a thai tafarn stryd gefn oedd yn nodweddiadol o fywyd trefi Prydain tan y 1980au. Yn ddiweddar gadawodd manwerthwyr cadwyn (er enghraifft y Co-Op a Greggs) Heol Cas-gwent ond mae'r lle'n fywiog yn sgìl siopau llai a Wetherspoon a Boots. Mae adeilad y llyfrgell ar ganol bywyd cymuned yn yr ardal, ers sefydlu ystafell ddarllen yn adeilad yr orsaf dân gynt o oes Edward pan fudodd y gwasanaeth tân ohono ar ôl yr Ail Ryfel Byd. Tan 2015 roedd Cyngor Dinas Casnewydd yn rhedeg llawr gwaelod yr adeilad fel llyfrgell. Yn dilyn toriadau cyllid yr awdurdod lleol a'i chau, ail-agorwyd y llyfrgell ac ers mis Hydref 2015 fe'i rhedir yn wirfoddol fel llyfrgell a man cymuned ill dau a bu wrth graidd prosiect *Ffeindio'r Maendy.* Ar hyn o bryd mae adeilad y llyfrgell yn cael ei ailwampio yn rhan o Brosiect *Ffeindio'r Maendy* ac fe'i hailenwyd yn *Llyfrgell Maendy +* gan fod ei swyddogaeth a'r defnydd ohoni wedi symud y tu draw i lyfrgell gonfensiynol.

Mae *Ffeindio'r Maendy* yn rhan o fenter *Syniadau: Pobl: Lleoedd* Cyngor Celfyddydau Cymru (2013 – 2018), a chanddi'n amcan "plannu'r celfyddydau mewn ffordd ystyrlon, go iawn, mewn nifer fechan o brosiectau adfywio dychmygus, uchelgeisiol ac arloesol" (http://www.arts.wales/arts-in-wales/ideas-people-places). Felly mae'r prosiect â'i fryd ar "ddefnyddio'r celfyddydau ac arfer cymunedol creadigol i ddatblygu amrywiaeth o brosiectau a chomisiynau sy'n gymorth i ailddiffinio hunaniaeth Maendy a chefnogi ymdeimlad newydd o ddichonoldeb a chynaliadwyedd" (<http://www.maindee.org/finding-maindee>). Mae i *Ffeindio'r Maendy* dair cainc:

1. *Cyfryngau'r Stryd* –menter wedi'i llunio i helpu trigolion ifainc (dan 25) Maendy i ddefnyddio'r cyfryngau a ffilm drwy gynnig mentora a chefnogaeth gan gymheiriaid a hyfforddiant ac adnoddau i'r rheini sy'n ymddiddori mewn chwilio ffilm a'r cyfryngau yn llwybr gyrfa.

2. *Mappa Maendy* - rhaglen o waith yn canolbwyntio ar gynnwys cymunedau drwy weithgareddau mapio llythrennol a throsiadol sy'n defnyddio data, dulliau ymchwilio, gweithgaredd dan arweiniad artistiaid a phrosesau arwyddbyst i greu cyfres o fapiau aml-haenog o'r ardal.

3. *Llwybrau Newydd* –cynllun cronfa sy'n cynnig hyd at £2,500 ar gyfer prosiectau creadigol fyddai o gymorth i 'ffeindio'r Maendy' ac sy'n gydnaws â chyrchddull *Ffeindio'r Maendy* sy'n gynhwysol ac ynghlwm â'r gymdeithas o ran adfywio a chanddo gymuned Maendy wrth ei graidd.

Yn hytrach na dim ond dyfarnu cyllid, symudodd *Llwybrau Newydd* tuag at fodel cydweithredol, wedi'i seilio ar gynulliad misol, lle'r anogwyd artistiaid i gydweithio i ddatblygu prosiectau sy'n creu dolennau cyswllt â phrosiectau creadigol eraill yn y cyffiniau, a meithrin rhwydwaith cefnogi artistiaid a chynnig mentora a/neu gyfleoedd hyfforddi yn ôl y galw.

Drwy'r cynllun *Llwybrau Newydd* cyllidwyd amrywiaeth o brosiectau a ddatblygwyd gan unigolion, cyrff, artistiaid ac ymarferwyr creadigol lleol. Ymhlith prosiectau nodedig bu:

- **Mr a Mrs Clark – *Invite the Neighbours around to Paint.*** Digwyddodd yr wythnos yma o weithgaredd ar y tir am y ffordd â'r llyfrgell a dechrau chwilio'r berthynas rhwng pobl, man a lle y byddai'n dda gennym ei datblygu drwy'r llyfrgell. Mae meddyliau am y profiad yma i'w gweld ar ein blog a rhai o feddyliau Gareth Clark ei hun i'w cael yma.

- **Marion Cheung – *Maindee Stories: The Fabric of our Lives*.** Amcan 'Maindee Stories' oedd casglu pobl o wahanol gefndiroedd ynghyd, i rannu syniadau a straeon am Faendy ar yr un pryd â ffeirio sgiliau brethyn. Ohono, cynhyrchwyd darn mawr o frethyn ac yn ei wead syniadau am fan a lle drwy adrodd straeon a chwilio agweddau hanesyddol ar yr ardal. Roedd Marion hefyd yn Gyd-drefnydd Prosiect Mil o Leisiau, prosiect a gyllidwyd gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri, yn gweithio gyda'r gymuned i gasglu ac archifo straeon a hanesion Tŷ'r Gymuned, man cymuned ym Maendy.

- **Rohan Bishop – *Sounds Alive*.** Rhedodd Rohan weithdai cerddoriaeth wythnosol yn y llyfrgell lle'r oedd y cyfranogwyr yn datblygu proses recordio ddihafal ac yn chwilio amryw dechnegau creu a thrin sain.

- **Stuart Farnsworth - *Maindee Nonsensus*.** Bu i'r artist lleol Stuart Farnsworth ddefnyddio Maendy'n gynfas daearyddol i gyfarfod pobl, i herio'r dulliau confensiynol a ddefnyddir mewn Cyfrifiad a noddir gan y wladwriaeth ac i chwilio sut rydym yn llwyddo i gael ystyr oddi mewn i'r data a gasglir. Gwnaed recordiadau sain o gannoedd o gyfweliadau â thrigolion Maendy a chynhyrchwyd cyhoeddiad o'r trawsgrifiadau. Ymunodd Stuart â chorff lleol arall, Operasonic, i gynhyrchu'r Nonsensus Opera: darlleniad operatig o drawsgrifiadau'r cyfweliadau.

- **Robert Smith - *Sounds of Maindee*.** Cafodd Robert gyllid ar gyfer dehongliad topograffig sain o fan a lle Maendy, yn recordio ac yn mapio'r synau sy'n rhoi cip ar fywydau Maendy a Heol Cas-gwent. Bwriodd y prosiect hefyd olwg ar ffyrdd o archifo gwaith sy'n bod a sut i ymorol ei fod ar gael i'r gymuned. http://www.maindee.org/blog/sounds-of-maindee-new-project.

- **Tŷ'r Gymuned Heol Eton - Murlun Cymuned.** Hwn oedd y dyfarniad olaf gan Gronfa Llwybrau Newydd. Bydd Tŷ'r Gymuned Heol Eton yn rhedeg prosiect i greu murlun, sy'n darlunio'r grŵp amrywiol o ddiwylliannau sy'n byw - ac a fu fyw - yn ardal Maendy. Dyfeisiwyd syniad y prosiect gan Brian Selby ac mae'n tynnu ar straeon a ddadlennwyd gan brosiect *Mil o Leisiau* - prosiect a gyllidwyd gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri a redir gan Dŷ'r Gymuned ym Maendy oedd yn ceisio dal hanes yr adeilad a straeon y bobol gysylltiedig ag ef.

Drwy'r gweithgareddau a amlinellir uchod, bwriodd prosiect *Ffeindio Maendy* amheuaeth ar syniadau cyffredin ynghylch 'adfywio trefol' oedd gan mwyaf yn canolbwyntio ar ddatblygiadau cyfalaf. Yn hytrach, ceisiodd ddod o hyd i ffyrdd newydd o weithio a chysylltu pobl drwy greadigedd ac ymgysylltu â'r celfyddydau a thynnu ar brofiad, sgiliau ac

uchelgeisiau gwirfoddolwyr ac unigolion, grwpiau a busnesau lleol i ddatblygu Maendy a'i llyfrgell yn fan a redir gan bobl leol ac iddyn nhw. Mae blog prosiect *Ffeindio Maendy* yn rhoi llafar i'r cyrchddull yma a manylion ailwampio diweddar y llyfrgell a gweithgareddau eraill y prosiect.

Mae *Ffeindio Maendy* bellach ar ei drydedd flwyddyn ac felly gwnaed llawer o waith hyd yn hyn, gan gynnwys: rhaglen barhaol o weithgareddau diwylliannol ac ymyriadau artistiaid; cyfres o arolygon, astudiaethau dichonoldeb yn arwain at ailddatblygu adeilad Llyfrgell Maendy; a sefydlu rhwydwaith eang ac ymroddedig o wirfoddolwyr, grwpiau cymuned ac unigolion sy'n frwd dros ddyfodol Llyfrgell Maendy. Lluniwyd y prosiectau a gomisiynwyd hyd yn hyn i gynnwys yn dactegol sampl mor eang ag y bo modd o'r gymuned leol mewn gweithgaredd sy'n dechrau mynd i'r afael â dirywio cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol lleol. Yn gweithio yn sgìl ymgynghori â'r curaduriaid a rhanddeiliaid allweddol eraill perthnasol, disgwylir y bydd yr Artist a benodir yn defnyddio'r pethau hyn yn sylfaen, yn tynnu ar yr ymchwil, yr adnabyddiaeth, y rhwydweithiau, y canlyniadau a'r wybodaeth a gasglwyd ac a gynhyrchwyd hyd yn hyn ac yn ymgysylltu â nhw er mwyn bwydo ei gyrchdull.

2. Llywodraethu'r Prosiect ac Ymgynghori/Cydweithredu ag Aelodau o'r Gymuned a Rhanddeiliaid Allweddol

Maindee Unlimited (MU) yw comisiynydd y prosiect, gyda chefnogaeth gan Gyngor Celfyddydau Cymru (CCC). Elusen yw Maindee Unlimited a sefydlwyd yn 2014 a chanddi'n amcan drawsnewid Maendy yn gymuned gynaliadwy a chanddi hunaniaeth leol gref, economi leol gref ac yn cael y gair o fod yn lle deniadol, diogel, diwylliannol fywiog a chydlynol i fyw, i weithio ac i hamddena ynddo. Mae'r corff ar sylfeini gŵyl gelfyddydau flynyddol a gychwynnodd ym 1997 ac ymgymerodd â nifer o weithgareddau yn rhan o brosiect ehangach *Ffeindio'r Maendy*.

Sefydlwyd Grŵp Llywio ar gyfer y comisiwn, sef y curaduriaid, cynrychiolaeth gan CCC a Maindee Unlimited a Gwirfoddolwyr y Llyfrgell. Bydd gofyn i'r Artist ymgynghori â'r Grŵp Llywio ar gyfnodau allweddol yn natblygiad y comisiwn a chymryd rhan mewn cyfathrebu ehangach fel y bo'n briodol. Prif fan cysylltu'r Artist fydd Sarah Pace, Cyd-gyfarwyddwr Addo, a ddynodwyd yn rheolwr prosiect y comisiwn, yn gweithio ar y cyd â Jo Sutton (Maindee Unlimited). Bydd Jo Sutton a Sarah Pace yn cyd-guradu'r comisiwn.

Anogir yr Artist hefyd i drafod ag unigolion a grwpiau lleol, ac Artistiaid/Ymarferwyr Creadigol cynt a phresennol *Ffeindio'r Maendy* fel y bo'n briodol ar gyfer ffurf a chynnwys ei waith arfaethedig. Bydd y curaduriaid a'r grŵp llywio yn gallu cefnogi hyn.

3. Disgwyliadau gan y Comisiwn

Mae'r cyfle yma'n agored i Artistiaid Sain sydd â'u cartref yn y Deyrnas Unedig. Rydym hefyd yn croesawu ceisiadau gan bartneriaethau/grwpiau/practisiau stiwdio. Rhaid i'r ymgeiswyr ddangos:

- Gwreiddioldeb creadigol, safon artistig a phroffesiynoldeb yn eu gwaith;
- Gallu ac awydd gweithio'n agored ac yn gydweithredol yn rhan o'u harfer creadigol;
- Etheg gwaith egnïol, ragweithiol, â hunangymhelliad;
- Parodrwydd i gymhathu ym mywyd a diwylliant yr ardal;

- Ymwybyddiaeth feirniadol o'r rolau a gweithgaredd diwylliannol a allai artistiaid a gweithgaredd diwylliannol eu chwarae - neu beidio â'u chwarae - mewn adfywio cymunedau;
- Ymwybyddiaeth o ddeddfau gweithio gyda phlant ac oedolion agored i niwed a pharodrwydd i gydymffurfio â nhw, os ymgymerant â gwaith o'r fath yn rhan o'r prosiect;
- Gallu profedig cyflenwi celfweithiau o safon uchel mewn pryd ac oddi mewn i'r gyllideb.

Bydd yr Artist a benodir hefyd yn ymgymryd â'r canlynol

- Cynhyrchu cynnig ar gyfer ei gelfwaith yn dilyn cyfnod Ymchwil a Datblygu;
- Mynychu a gwneud cyflwyniadau o'i waith a'i gynnig yn ôl y galw/fel y bo'n briodol ac yn unol â rhaglen ymgynghori ac ymgysylltu cymunedol prosiect *Ffeindio'r Maendy*;
- Darparu costiadau manwl cynigion ei gelfwaith a rheoli'r rhain yn sgìl ymgynghori â rheolwr y prosiect;
- Darparu gwybodaeth yn ôl y galw at ddibenion cyfathrebu a chytuno ar i'r gwaith gael ei ddogfennu at ddibenion hyrwyddo, gwerthuso ac archifo;
- Ymgysylltu â rhaglen *Ffeindio'r Maendy* a chyd-weithio â'r curaduriaid tuag at ddigwyddiad lansio'r comisiwn yn Llyfrgell Maendy+ ym mis Tachwedd 2018;
- Dal a darparu tystiolaeth o yswiriant atebolrwydd cyhoeddus a chynhyrchion ac yswiriant indemniad proffesiynol, ac ysgwyddo cyfrifoldeb am unrhyw gontractwyr a gyflogir i roi ar waith ei gynigion;
- Ymorol am gynhyrchu'r celfwaith y cytunwyd arno oddi mewn i ffrâm amser y prosiect a'i ddanfon i'r safle, ar y cyd â'r cleient;
- Ysgwyddo cyfrifoldeb am ddulliau gosod y celfwaith a'u goruchwylio, a'r costau a bennir;
- Cadw rheoliadau Adeiladu (Dylunio a Rheoli) fel y bo'n briodol.

Ar y cyd â'r Curaduriaid a'r Grŵp Llywio, ystyried y canlynol yn fanwl wrth y gwaith o ddatblygu ei ddyluniadau:

- Achosion Iechyd a Diogelwch yng nghynnig a gwireddu'r dyluniad fel ei gilydd;
- Methodoleg;
- Dycnwch deunyddiau ac adeiladwaith;
- Cynnal a chadw, a defnydd hirdymor.
- Darparu cyfarwyddiadau cynnal a chadw wedi cwblhau'r gosod gyda chanllawiau clir o ran y dull gorau o gynnal a chadw celfweithiau ac unrhyw driniaeth neu wybodaeth arbenigol sy'n rhaid. Dylai'r Artist nodi hyd oes disgwyliedig y gwaith ac unrhyw ddulliau digomisiynu y dylid eu rhoi ar waith.

4. Cyfyngiadau

Ar hyn o bryd nid oes cyfyngiadau a ganfuwyd y tu hwnt i faint y llyfrgell, y bydd gofyn i'r Artist ei ystyried pan fydd yn datblygu ei gynigion. Fodd bynnag, bydd gofyn i'r Artist fynd i'r afael ag unrhyw gyfyngiadau sy'n dod i'r fei yn ystod y cyfnod Ymchwil a Datblygu yn sgìl ymgynghori â'r Curaduriaid a'r Grŵp Llywio (er enghraifft, bod y cynigion yn gymwys oddi mewn i'r cyllid a ddarparir gan Gyngor Celfyddydau Cymru a bod modd eu cyflenwi a'u cynnal o ran costau refeniw, risg, cadernid a'r graddfeydd amser a'r cyllidebau sydd ar gael). Rhaid cynhyrchu'r gweithiau gyda'r gofal a'r sylw dyladwy i'r Ddeddf Cydraddoldeb (2010) ac achosion iechyd a diogelwch.

Efallai bod y syniad o gelfwaith Sain mewn llyfrgell i'w weld yn rhyfedd ond man amlswyddogaethol yw Llyfrgell Maendy + sy'n rhoi lle i amrywiaeth o weithgareddau, gan gynnwys cyflwyniadau AV. Er enghraifft cafwyd sesiynau Sounds Alive Sounds Alive sessions wythnosol yn y Llyfrgell a oedd yn chwilio'r agweddau ymarferol ar weithdai

cerddoriaeth yn y fan a therfynau sain yr adeilad. Bydd gofyn i'r Artist ystyried y defnydd o'r fan yn sgìl ymgynghori â'r Curaduriaid a Rhanddeiliaid ehangach pan fydd yn penderfynu sut y dylid cyflwyno'r celfwaith, er enghraifft, ystyried defnyddio clustffonau, apps ar-lein, cyrn sain cyfeiriol, synwyryddion, etc. neu gyfuniad o'r rhain.

5. Amserlen y Prosiect

Mae hwn yn frîff bwriadol agored oddi mewn i broses gomisiynu ddau gam a fydd yn rhoi lle i gyfnod ymchwil a datblygu (Cyfnod 1 – Ymchwil a Datblygu) cyn cytuno ar y cynnig i'w gynhyrchu a'i roi ar waith (Cyfnod 2 – Rhoi ar Waith) oddi mewn i'r raddfa amser sydd ar gael.

Penodi'r Artist

Canol Nos 25 Gorffennaf 2018	Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau
30 Gorffennaf 2018	Y panel yn rhoi artistiaid ar restr fer i'w cyfweld
30 Gorffennaf 2018 rhestr fer	Anfon gwahoddiadau i gyfweliad at yr artistiaid ar y
07 Awst 2018	Cyfweliadau'r Artistiaid
10 Awst 2018	Penodi'r Artist a Ddetholwyd
10 Awst 2018	Diwrnod Sefydlu'r Artist (gan gynnwys ymweld â'r safle a chyflwyno i randdeiliaid allweddol, cyfleoedd a gwybodaeth)

***** Rhaid i'r Artistiaid fod ar gael ar gyfer cyfweliad ar 07 Awst 2018 ac ar gyfer Diwrnod Sefydlu'r Artist ar 10 Awst 2018 *****

Cyfnod 1 – Ymchwil a Datblygu

13 Awst – 14 Medi 2018	Y disgwyl yw y treulir cyfran o'r cyfnod yma yng Nghasnewydd, yn ymgynghori â'r Curaduriaid a'r Grŵp Llywio ac yn gwneud ymchwil, yn ymgynghori â'r gymuned ac yn gwneud gweithgareddau cymryd rhan fel y bo'n addas ac fel y rhagnodir yn y brîff.
yr wythnos yn dechrau 17 Medi 2018	Ymgynghori â Gweithgor Llyfrgell Maendy a chael sêl ei fendith ar gynnig a chyllideb y comisiwn

Cyfnod 2 – Rhoi ar Waith a Gosod

24 Medi – 14 Tachwedd 2018Cynhyrchu a gosod y celfwaith.

Tachwedd 2018	Digwyddiad Lansio'r Celfwaith (yr union ddyddiad i'w gadarnhau)
Diwedd Tachwedd 2018	Rhaid cwblhau'r prosiect erbyn 30 Tachwedd 2018, yn unol â rhaglen a ffrydiau cyllid *Ffeindio'r Maendy*.

6. Ffioedd a chyllideb

Cyfanswm cyllideb y prosiect yw £13,000 (yn cynnwys TAW), a glustnodir fel sy'n dilyn:

£2,500.00	Ffi'r Artist am y Cyfnod Ymchwil a Datblygu
£10,500.00	Cyllideb Cyflenwi'r Prosiect, gan gynnwys Ffi'r Artist a ffioedd unrhyw isgontractwyr, deunyddiau ac offer sydd angen i gyflenwi'r comisiwn. Cynigir a datblygir dadansoddiad y gyllideb yma gan yr Artist yn sgìl ymgynghori â churaduriaid y prosiect a bydd yn amodol ar gymeradwyaeth y Grŵp Llywio.

Mae Ffioedd yr Artist wedi'u seilio ar gyfradd ddyddiol o £250 (yn cynnwys TAW, teithio a threuliau).

Mae yna gyllideb ar wahân o £1,500 (yn cynnwys TAW) wedi'i chlustnodi tuag at gyhoeddusrwydd, llywyddu a dogfennu'r digwyddiad lansio, a reolir gan guraduriaid y prosiect yn sgìl ymgynghori â'r Grŵp Llywio.

7. Sut i Wneud Cais:

Rheolir y broses recriwtio gan yr asiantaeth guradurol Addo. I wneud cais, cyflwynwch yr wybodaeth ganlynol i commissions@addocreative.com erbyn canol Nos 25 Gorffennaf 2018:

- Hyd at ddeg o seindalpiau/delweddau digidol ac os mynnir, fideo arddangos deng munud (fan bellaf). Dylai pob darn o waith fod wedi'i rifo a chynnwys teitl, dyddiad, dimensiynau/cwmpas, cyfryngau, manylion y prosiect mae'n ymwneud ag ef a'i berthnasedd i'ch cais;
- CV(au) cyfredol;
- Llythyr cais byr sy'n amlinellu'n fras pam rydych yn ymddiddori yn y cyfle yma ac ym mha fodd y mae'n berthnasol i'ch ymarfer;
- Dau ganolwr a all dystio i'ch addasrwydd i ymgymryd â'r comisiwn.

Byddwn yn dethol ar sail ansawdd gwaith yn y gorffennol a'i berthnasedd i'r brîff. **I chi gael gwybod:**

- nid oes arnom angen cynigion yn y fan hon gan ein bod yn disgwyl y bydd yr artist a benodir yn datblygu'r rhain drwy gyfnod o ymchwil a rhyngweithio â'r adeilad a'r rhanddeiliaid allweddol;
- pan fyddwch yn anfon ffeiliau mawr (dros 4MB), darparwch hyperddolennau i ffeiliau ar-lein neu anfon drwy DropBox / WeTransfer. Nid ystyrir unrhyw gais a ddaw i law drwy e-bost sy'n cynnwys ffeiliau dros 4MB.

8. Y Broses Ddethol

Bydd Addo, y Curaduriaid a'r Grŵp Llywio yn rhoi hyd at bum ymgeisydd o blith y ceisiadau ddaw i law ar y rhestr fer i'w cyfweld. Bydd y cyfweliadau'n digwydd yn Llyfrgell Maendy+, 79 Heol Cas-gwent, Casnewydd NP19 8BY

Rhaid i'r ymgeiswyr fod ar gael ar gyfer cyfweliad ar y dyddiad – **07 Awst 2018**.

Anfonir gwahoddiadau i gyfweliad ar **30 Gorffennaf 2018**. Caiff y rheini sy'n cael cyfweliad hawlio hyd at £100 o dreuliau teithio ac ymgynnal rhesymol y maent yn mynd iddynt o ddod i gyfweliad.

Yn y cyfweliad, bydd disgwyl i'r cyfweleion sôn yn fanylach am eu gwaith yn y gorffennol a'u prosesau gweithio a'r cyrchddull sydd ganddynt mewn golwg ar gyfer y comisiwn. Gofynnir iddynt gyflwyno enghreifftiau o'u gwaith yn y gorffennol ac fe'u hasesir yn dilyn y cyfweliad yn seiliedig ar eu gwaith yn y gorffennol a'u hymatebion (**nid** cynigion) i'r brîff.

Bydd y cyfweliadau'n gofyn ymrwymiad hanner diwrnod a byddant yn cynnwys taith o gwmpas yr adeilad, cyflwyniad ugain munud gan yr artist, wedyn ugain munud o holi a thrafod. Bydd panel y cyfweliad yn cynnwys cynrychiolwyr Maindee Unlimited, gwirfoddolwyr y llyfrgell a Chyngor Celfyddydau Cymru. Rhannir rhaglen y cyfweliad a gwybodaeth am aelodau'r panel cyn y cyfweliad.

Mae Maindee Unlimited yn ymroddedig i gyfle cyfartal a barnir y ceisiadau i gyd yn unol â'r meini prawf a ddatganir uchod, ar deilyngdod yn unig a heb ragfarn.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y cyfle yma, e-bostiwch:
commissions@addocreative.com.